NODIADAU AM DREFNU YMWELD Â CHOLEG TREFECA

Diolch i chi am holi am ymweld â Threfeca. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu.

Os na fuoch yn trefnu ymweliad â ni o'r blaen, fe ddylai'r nodiadau hyn fod o gymorth i chi drefnu'r camau angenrheidiol ar gyfer eich ymweliad. Mae yna gryn dipyn o waith i un, felly efallai yr hoffech gynnull grwp bach i rannu'r faich. Ond mae'n bwysig fod aelodau'ch grwp a ninnau yng Ngholeg Trefeca yn gwybod â phwy i gysylltu os oes angen, felly gadewch i ni gael un enw cyswllt.

Teimlwch yn rhydd i gysylltu â ni am unrhyw gyngor sydd ei angen arnoch. Po gyntaf y clywn ni am unrhyw anhawster, po gyntaf y byddwn yn gallu bod o gymorth i chi.

Talu'r blaendal

Mae Coleg Trefeca yn derbyn nawdd sylweddol gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac mae yna gost weinyddol i ddelio â'ch ymholiad o'r cychwyn cyntaf. Rydym felly yn gofyn i chi dalu blaendal pan fyddwch yn bwcio. Fe ddidynnir hwn oddi ar eich bil terfynol os byddwch yn dod atom i aros, ond fe fyddwn yn ei gadw i gwrdd â'n costau os na allwch ddod wedi'r cyfan.

Os yw'r swm y gofynnir amdano yn ormod i chi ei dalu, yna gofynnwch i'ch eglwys, Henaduriaeth neu sefydliad eich helpu.

Faint ddylwn i ei godi?

Rydym yn gwneud ein gorau i roi pris "holl-gynhwysol", yn cynnwys defnydd ein holl gyfleusterau. Ond wrth osod y pris ar gyfer eich grŏp, fe fydd angen ychwanegu:

1. Cost cludiant. (Os ydych yn dod â 25 neu fwy mewn bws wedi'i logi, yna fe rown fwyd a llety am ddim i'r gyrrwr. Cofiwch holi'r swyddfa am fanylion).
2. Cost unrhyw wibdaith y byddwch yn ei threfnu.
3. Costau llety a theithio a chydnabyddiaeth unrhyw siaradwyr gwadd. (Os ydych yn dod â 25 neu fwy, yna fe gynigiwn un lle am ddim i arweinydd).
4. Fe ofynnwn i chi ddarparu'ch papur fflip siart, sleidiau taflunydd, offer celf a chrefft, ayb eich hunain. Fe godwn 10c y ddalen (15c am ddwy ochr) ar gyfer llun-gopïo.

Beth os na all rhai ohonom gwrdd â'r gost?

Ein polisi yw na ddylai neb gael ei atal rhag dod yma oherwydd cost yn unig. Efallai y gallwch helpu'ch gilydd oddi fewn i'r grŏp. Efallai y gallech godi ychydig yn fwy ar y sawl sydd mewn gwaith er mwyn gallu cynnig gostyngiad i bensiynwyr neu eraill sy'n brin o arian. Efallai y bydd eich eglwys, Henaduriaeth neu sefydliad yn barod i gynorthwyo'r sawl sydd mewn angen.

Os nad oes ateb felly ar gael, yna cysylltwch â ni. Mae gan Goleg Trefeca yr hawl i ddefnyddio cronfeydd elusennol er mwyn sicrhau y gall pawb fforddio dod yma.

Pryd ddylwn i hysbysebu'r ymweliad?

Yn fras, fe awgrymwn yr amserlen ganlynol:

hyd at 12 mis cyn yr ymweliad: Trefnwch restr i bobl ei harwyddo i ymrwymo'u hunain. Bydd o fudd i chi sicrhau fod pawb yn talu blaendal i chi (£5 neu £10 yr un, er enghraifft).

6 mis cyn dod: Dosbarthwch gopi o raglen fanwl i bob un sy'n dod. Byddwn ni yn hapus i gynorthwyo gyda manylion yr amserau, ayb. Os ydych yn brin o bobl, neu os oes anawsterau eraill, yna trafodwch hynny â ni ac â'r lleill. Peidiwch adael i bethau lithro!

2 wythnos cyn dod: Dyddiad cau i bobl fwcio neu tynnu'n ôl. Sicrhewch fod gennych fanylion unrhyw anghenion arbennig parthed bwyd neu faterion eraill (e.e. ystafelloedd llawr gwaelod, cyfleusterau i'r anabl, ayb). Cadarnhewch y trefniadau eraill.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

10 niwrnod cyn dod: Cysylltwch â Cholog Trefeca â'r holl fanylion

Beth ddylwn ei gynnwys yn y rhaglen?

Cysylltwch â ni ar bob cyfrif i drafod syniadau. Gallai'r canlynol fod o gymorth:

- Holwch eich grŵp i weld a ydynt am gael gwyliau, cynhadledd neu dipyn o'r ddau.
- **Ar gychwyn eich ymweliad,** fe fyddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i'ch croesawu a dweud rhyw ychydig am Drefeca, ei hanes a'i waith heddiw.
- Os ydych chi yma dros y Sul, yna fe werthfawrogir prynhawn Sadwrn rhydd, gan roi'r cyfle i gerdded neu gweld yr ardal – gweler isod. Os ydych chi yma ganol wythnos, yna mae **gwibdaith undydd (ar ddydd Mercher fel arfer)** yn boblogaidd. Gellir trefnu pecyn cinio ar eich cyfer. Mae gennym ddetholiad o daflenni am atyniadau lleol. Gofynnwch amdanynt.
- Bydd y Wardeniaid a'r Warden Cynorthwyol yn hapus iawn i gyfrannu at arwain rhannau o'ch rhaglen o gael rhybudd ymlaen llaw. Bydd croeso i chi ymuno â **gweddïau Teulu Trefeca** am 9.15-9.30 y bore ar ddyddiau gwaith.
- Peidiwch â gorlwytho'r rhaglen – wedi'r cyfan, gallech ddod yn ôl y flwyddyn nesaf!
- Cystal i chi gadw ambell syniad wrth gefn rhag ofn bod y tywydd yn ddrwg neu bod rhyw anhawster arall. Mae yna lawer mwy o atyniadau ar gyfer tywydd da nag ar gyfer tywydd gwael yn yr ardal hon, felly cynlluniwch ymlaen llaw.
- **Amserau prydau bwyd:** Trefnwch eich rhaglen orau gallwch chi o amgylch yr amserau prydau a roddir yn y *Nodiadau ar gyfer arweinwyr & Amodau Cofrestru.*

Beth sydd ar gael yn lleol?

Mae Talgarth 1 milltir o Drefeca. Cymerwch ofal os y cerddwch yno ar hyd yr heol, gan nad oes palmant. Mae'r cyfleusterau canlynol ar gael yn Nhalgarth:

- Banc NatWest (ar agor Llun a Gwener yn unig 10.30 y bore - 2.30 y prynhawn). Nid oes peiriant arian, ond gellir cael arian parod o'r peiriant "Link" yn:
- Siop gyffredinol Co-op (ar agor 8 y bore - 8 yr hwyr Llun i Sadwrn, 10 y bore – 6 yr hwyr ar ddydd Sul), yn cynnwys Swyddfa'r Post (ar agor 9 y bore - 1 y prynhawn Llun i Sadwrn & 2-5.30 y prynhawn Llun/Mawrth/Iau/Gwener)
- Siop bapurau (ar agor 6 y bore - 6 yr hwyr Llun i Sadwrn, 6 - 12.30 Dydd Sul)
- Canolfan croeso (10 y bore – 4 y prynhawn, ond ar gau ar ddyddiau Llun heblaw gwyliau banc. Ar agor rhai diwrnodau yn unig yn ystod y gaeaf)
- Meddygfa (Ffôn 01874 713000)
- Fferyllfa (ar agor 9 y bore – 5.30 yr hwyr dydd Llun i ddydd Sadwrn)
- Siop pysgod a sglodion a siop bwyd Sieneaidd
- Pwll nofio a chanolfan hamdden (ym Mharc Carafannau Riverside). Ar agor o'r Pasg tan ddiwedd mis Hydref 10.30 y bore - 9 yr hwyr Llun i Wener, 10.30 y bore – 5 yr hwyr Sadwrn a Sul)
- Eglwysi Presbyteraidd, URC, Bedyddwyr ac Anglicanaidd

Mae **Aberhonddu** rhyw 8 milltir i ffwrdd, a cheir yno ganghennau'r prif fanciau (gyda pheiriannau arian), Boots, W H Smith, Woolworths, Safeway, Co-op, KwikSave, ayb, yn ogystal â nifer fawr o dai bwyta a siopau crefftau, canolfan hamdden sylweddol, theatr a chanolfan croeso. Mae yna 11 o addoldai, a rhestrir y rhain ar hysbysfwrdd y brif fynedfa.
Mae'r **Gelli Gandryll** hefyd rhyw 8 milltir i ffwrdd, ac mae'n enwog am ei siopau llyfrau ail-law. Mae yno hefyd Ganolfan Grefftau, nifer o dai bwyta ac ychydig o siopau eraill. Mae yna eglwysi Efengylaidd, Bedyddiedig, Anglicanaidd a Phabyddol.

Trevor Lewis, Mair Jones
Wardeniaid
Diweddarwyd 10.05.03

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com